**Jane Hutt AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Cynulliad

6 Chwefror 2020

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

Yng nghyfarfod llawn 14 Ionawr, cododd Leanne Wood AC gwestiwn ynghylch pryd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno absenoldeb â chyflog ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig. Mae polisi absenoldeb arbennig Llywodraeth Cymru yn caniatáu i reolwyr llinell ystyried pob cais rhesymol am absenoldeb arbennig ar sail amgylchiadau'r unigolyn.

Diweddarwyd y canllawiau ynghylch absenoldeb arbennig ym mis Tachwedd 2019 er mwyn ei gwneud yn glir y ceir rhoi absenoldeb arbennig â chyflog i ddioddefwyr cam-drin domestig am hyd at 10 diwrnod. Ceir cynnig absenoldeb i staff gael gwneud y canlynol, ymhlith tasgau eraill: ymgynghori â'r heddlu, cyfreithwyr neu weithwyr proffesiynol eraill; chwilio am lety arall er mwyn gallu symud o'u sefyllfa ddomestig.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot hefyd yn cynnig absenoldeb â chyflog i staff sy'n dioddef cam-drin domestig, ac rwyf wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn eu hannog i wneud yr un fath. Ar yr un pryd, mae'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at bob un o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn tynnu sylw at ddatganiad Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ar gam-drin domestig: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/cyd-ddatganiad-ar-absenoldeb-%C3%A2-chyflog-i-staff-sy%27n-dioddef-cam-drin-domestig.pdf

Mae'n uchelgais gen i i weld absenoldeb â chyflog yn cael ei gynnig mewn achos o gam-drin domestig fel mater o drefn ledled Cymru.

Yn gywir,

Jane

**Jane Hutt AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.